**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 9 Ebrill 2019 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Bu P O'Connor (Cadeirydd) yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | T J Hennegan |
| P R Hood-Williams | P K Jones | J W Jones |
| E T Kirchner | S Pritchard | L V Walton |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Peter Field | Prif Swyddog - Ataliaeth, Lles a Chomisiynu |
| Adam Hill | Deputy Chief Executive / Director of Resources |
| Tracey Meredith | Prif Swyddog Cyfreithiol |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Jonathon Rogers | Corporate Fraud Team Investigator |
| Richard Rowlands | Rheolwr yr Uned Cyflwyno Strategol |
| Ben Smith | Swyddog A.151 |

**Hefyd yn bresennol: -**

| | |
|---|---|
| Jason Garcia | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Williams | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Ian Arundale | Pwyllgor Archwilio Cyngor Caerdydd |
| David Hugh Thomas | Pwyllgor Archwilio Cyngor Caerdydd |
| Chris Pike | Rheolwr Archwilio Cyngor Caerdydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): O G James, M B Lewis a/ac W G Thomas
Aelodau Cyfetholedig(wyr):

---

## 82 Cynrychiolwyr Pwyllgor Archwilio Cyngor Caerdydd.

Croesawodd y Cadeirydd Ian Arundale (Cadeirydd), David Hugh Thomas a Chris Pike (Rheolwr Archwilio) a oedd yn cynrychioli Pwyllgor Archwilio Cyngor Caerdydd fel rhan o'r broses adolygu cymheiriaid.

## 83 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol: -

Y Cynghorydd P R Hood-Williams - Cofnod rhif 91 - Strategaeth a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20 - Llywodraethwr Ysgol Gynradd y Crwys - personol.

Y Cynghorydd T M White - Cofnod rhif 85 - Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio 2019 - Dinas a Sir Abertawe - Aelod o'r Bwrdd Pensiwn Lleol a buddiolwr CPLlL - personol.

Paula O'Connor – yr agenda yn ei chyfanrwydd - Pennaeth Archwilio Mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - personol.

**84 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir.

**85 Y Diweddaraf am Lywodraethu. (Llafar)**

Rhoddodd Adam Hill, y Dirprwy Brif Weithredwr, gyflwyniad i'r pwyllgor am y Diweddaraf am Lywodraethu. Darparwyd manylion am yr isod: -

- Trosolwg - dyletswyddau cynghorwyr a'r Prif Swyddog;
- Fframwaith Llywodraethu - Dwy egwyddor graidd a phum egwyddor gefnogol;
- Llywodraethu Mewnol;
- Llywodraethu Allanol;
- Sicrwydd;
- Fframwaith Sicrwydd (Edau Euraidd);
- Rheoli Risgiau;
- 3 Llinell Amddiffyn;
- Ffynonellau Sicrwydd - Mewnol ac Allanol;
- Ffynonellau Sicrwydd Posib;
- Datganiadau Sicrwydd (Blynyddol - Ebrill).

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r swyddog ac ymatebwyd yn briodol iddynt. Roedd y materion a drafodwyd yn cynnwys: -

- Ymrwymiad gwleidyddol a chan swyddogion i'r broses gan gynnwys eu dyheadau;
- Dangos gweithdrefnau llywodraethu'n gyfreithiol ac yn ariannol;
- Yr her i'r TRhC yw sicrhau ei fod yn cydymffurfio â blaenoriaethau corfforaethol ac yn llwyddo wrth symud ymlaen;
- Hyder yn y broses lywodraethu wrth symud ymlaen;
- Gweithio mewn partneriaeth wrth fynd ymlaen;
- Rôl Craffu wrth oruchwylio llywodraethu.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Dirprwy Brif Weithredwr am ei gyflwyniad a dywedodd ei fod wedi darparu sicrwydd a llenwi bwlch sydd wedi bod yn nealltwriaeth y pwyllgor o lywodraethu. Ychwanegodd ei fod yn glir bod y swyddogion yn ymrwymedig i wneud

gwelliannau a'i bod yn edrych ymlaen at weithio i gryfhau'r fframwaith/risgiau i sicrhau bod pob maes yn cael ei gynnwys.

**86 Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio 2019 - Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd Jason Garcia, Swyddfa Archwilio Cymru (SAC), Gynllun Archwilio 2019 a oedd yn darparu'r gwaith archwilio arfaethedig, pryd y câi ei wneud, beth fyddai'r gost a phwy fyddai'n ymgymryd â'r gwaith.

Roedd Atodiad 1 yn nodi cyfrifoldebau'r archwilydd yn llawn ac roedd Arddangosyn 1 yn darparu tri cham y dull archwilio. Nodwyd risgiau camddywediadau pwysig yn Arddangosyn 2, nodwyd y gwaith perfformiad yn amlinelliad archwilio'r llynedd sy'n dal i fynd rhagddo yn Atodiad 2 a nodwyd y ffi archwilio arfaethedig ar gyfer y gwaith hwn yn Arddangosyn 4. Nodwyd y materion mwy arwyddocaol a/neu ailadroddol wrth wneud gwaith ardystio grantiau yn 2017-18 yn Atodiad 3. Dangoswyd elfennau'r gwaith archwilio perfformiad yn Arddangosyn 3 a darparwyd amserlen yr archwiliadau arfaethedig yn Arddangosyn 6. Byddai'r diweddaraf am gynnydd y cynllun yn cael ei adrodd i'r pwyllgor.

Tynnwyd sylw at y ffaith nad oedd unrhyw faterion arwyddocaol sy'n achosi pryder.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Monitro darpariaeth Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, osgoi dyblygiad, darparu eglurder, darparu rhaglen o waith a sicrwydd;
- Ffïoedd Swyddfa Archwilio Cymru, yn enwedig y gostyngiadau diweddar a sut mae'r ffïoedd yn cael eu cyfiawnhau;
- Llywodraethu a monitro'r Fargen Ddinesig wrth fynd ymlaen;
- Paratoi ar gyfer Brexit a'r sicrwydd a ddarparwyd yn Atodiad 3;
- Mae gwaith perfformio yn amlinelliad archwilio'r llynedd dal ar waith.

Gofynnodd y Cadeirydd am eglurhad nad oedd y sicrwydd a'r asesiad risg yn adolygiad archwiliad ond yn ymarfer cwmpasu gan SAC. Gofynnodd hefyd fod y pwyllgor yn cael ei hysbysu am unrhyw faterion sy'n codi o'r ymarfer cwmpasu.

**Penderfynwyd**: -

1) nodi Cynllun Archwilio Swyddfa Archwilio Cymru 2018/19;
2) darparu adroddiad diweddaru ar waith perfformio a hefyd unrhyw faterion o gwmpasu'r sicrwydd a'r asesiad risg yn ystod y flwyddyn ddinesig nesaf.

**87 Swyddfa Archwilio Cymru - Cynllun Archwilio 2019 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.**

Cyflwynodd David Williams, Swyddfa Archwilio Cymru, Gynllun Archwilio ar 2019 ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Nodwyd cyfrifoldebau'r Archwilwyr, ynghyd â rhai'r rheolwyr a'r rhai sy'n llywodraethu, yn Atodiad 1. Roedd y dull archwilio'n cynnwys tri cham fel a nodir yn Arddangosyn 1.

Cyflwynwyd risgiau'r archwiliad ariannol, a oedd yn cynnwys risgiau sylweddol yn Arddangosyn 2. Cyflwynwyd y ffi arfaethedig yn Arddangosyn 3.
Bwriad yr archwilwyr oedd nodi camddywediadau pwysig a hefyd ddarparu datganiad archwilio yn cadarnhau cysondeb y datganiadau ariannol sy'n cael eu cynnwys yn yr adroddiad blynyddol gyda datganiadau ariannol archwiliedig y Gronfa Bensiwn. Darparwyd amserlen y gwaith yn Arddangosyn 5.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

## 88 Y Diweddaraf am yr Archwiliad o Gontractau Gofal Cymdeithasol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Peter Field, Prif Swyddog Ataliaeth, Lles a Chomisiynu, adroddiad diweddaru 'er gwybodaeth' am gydymffurfiad Gofal Cymdeithasol y Gwasanaethau i Oedolion â Rheolau Caffael Corfforaethol a Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015.

Darparwyd diweddariadau i'r pwyllgor ynghylch cynnydd hyd at fis Ebrill 2019. Darparwyd hefyd fanylion am nifer y contractau gofal cymdeithasol nad oeddent yn cydymffurfio ym mis Rhagfyr 2018.

Amlinellwyd nad oedd 21 o gontractau'n cydymffurfio a darparwyd manylion y contractau hyn ar gyfer Gofal Preswyl, Gofal Cartref, Byw â Chymorth, Trydydd Sector a chontractau eraill nad oeddent yn cydymffurfio.

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau am y canlynol: -

- Bod y risg parhaus yn isel;
- Ailgomisiynu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod prosesau caffael cyfreithlon yn derbyn y cynnydd tebygol o oddeutu £1.6m yn 2019/20 a'r ffocws ar sicrhau bod pob contract yn cydymffurfio.

**Penderfynwyd** y dylid nodi cynnwys y diweddariad.

## 89 Monitro Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf - Chwarter 3ydd 2018/19.

Cyflwynodd Ben Smith, Swyddog Adran 151 adroddiad 'er gwybodaeth' am fonitro ariannol ar gyfer cyllidebau refeniw a chyfalaf 2018/19, gan gynnwys darparu arbedion cyllidebol.

Darparwyd yr adroddiad Monitro Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf Trydydd Chwarter 2018/19 a gyflwynwyd i'r Cabinet ar 14 Chwefror 2019 yn Atodiad 1.

Dywedodd fod yr adroddiad wedi cael ei ddarparu er mwyn rhoi sicrwydd i'r pwyllgor bod y Swyddog Adran 151 a'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn hollol ymwybodol o'r safle ariannol a bod yr awdurdod yn gweithio tuag at leihau'r gorwariant a darparu cyllideb gytbwys.

Ychwanegodd fod costau gofal ychwanegol y Gwasanaethau Cymdeithasol yn anochel ac wedi arwain at fethiant yr awdurdod i lynu wrth ei dargedau arbedion.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- gorwariant yn y gyllideb, cynaladwyedd y gyllideb a'r her sy'n wynebu awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch costau gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol;
- Rhagolwg alldro refeniw yn seiliedig ar safle'r trydydd chwarter, yn enwedig gwariant net cyfarwyddiaethau a rheoli'r safle wrth symud ymlaen;
- Rhagolwg atgyweirio cyfredol y Cyfrif Refeniw Tai ac nid oes unrhyw faterion cyllideb eraill i dynnu sylw atynt ar hyn o bryd;
- Yr awdurdod yn lobïo Llywodraeth Cymru am arian ychwanegol;
- Canlyniadau adolygiad a pholisi Darparu Lleiafswm Refeniw wrth fynd ymlaen.

**Penderfynwyd** y dylai monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf fod yn eitem reolaidd ar agendâu'r pwyllgor yn y dyfodol.

## 90 Cynllun Blynyddol Twyll Corfforaethol 2019/2020.

Cyflwynodd Ymchwiliwr y Tîm Twyll Corfforaethol adroddiad am y Cynllun Gwrth-dwyll ar gyfer 2019/2020. Nodwyd bod y Cynllun Gwrth-Dwyll ar gyfer 2019/2020 yn debyg iawn i 2018/19; roedd gwaith y tîm yn adweithiol yn bennaf ac mae cynnydd wedi bod mewn twyll caffael.

Trafododd y pwyllgor y canlynol: -

- Canlyniadau da yn cael eu cyflawni a gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Gwaith a Phensiynau;
- Atgoffa staff ynghylch ymwybyddiaeth o dwyll;
- Gallu'r Tîm Twyll Corfforaethol wrth symud ymlaen.

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r Cynllun Gwrth-dwyll ar gyfer 2019/20 yn unol ag adolygiad parhaus o ddigonolrwydd yr adnoddau.

## 91 Siarter Archwilio Mewnol 2019/20.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r Siarter Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20. Tynnodd sylw'n benodol at y siarter a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Diffiniad o archwilio mewnol;
- Rôl a swyddogaeth archwilio mewnol;
- Cwmpas archwilio mewnol;
- Annibyniaeth archwilio mewnol;
- Rôl ymgynghorol archwilio mewnol;
- Rôl twyll, llwgrwobrwyo a llygru archwilio mewnol;
- Adnoddau archwilio mewnol; a
- Sicrhau ansawdd a gwella rhaglenni

Cadarnhaodd y Prif Archwilydd nad oedd ganddo unrhyw ddyletswyddau rheoli eraill sy'n cyfyngu ar annibyniaeth yr Archwiliad Mewnol.

Gofynnodd y Cadeirydd os oedd gan y Prif Archwilydd unrhyw ddyletswyddau rheoli eraill. Cadarnhaodd nad oedd ganddo unrhyw ddyletswyddau rheoli eraill sy'n cyfyngu ar annibyniaeth yr Archwiliad Mewnol.

Gofynnodd y Cadeirydd hefyd am agweddau ar y rhaglen Sicrhau Ansawdd a Gwelliant ac awgrymwyd eu bod yn cael eu trafod y tu allan i'r cyfarfod.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2019/20.

## 92 Strategaeth Archwilio a Chynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2019/20.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad a oedd yn ceisio cymeradwyo'r Cynllun Archwilio Mewnol a'r Strategaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20.

Darparwyd y Strategaeth Archwilio Mewnol yn Atodiad 1 yn ogystal â chrynodeb o'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2019/20 yn Atodiad 2 a rhestr o'r archwiliadau a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn yn Atodiad 3, ynghyd â'r dyddiau sydd wedi'u cynllunio ar gyfer pob archwiliad a'r risg ganfyddiedig.

Ychwanegodd fod gan yr Is-adran Archwilio Mewnol 9.5 person cyfwerth ag amser llawn ar gyfer 2019/20 ynghyd â'r Prif Archwilydd, sef yr un lefel o adnoddau a gafwyd yn 2018/19. Rhoddodd hyn swm o 2,366 o ddyddiau ar gael. Nodwyd bod y cynllun yn ddigonol ar gyfer yr holl adrannau.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Dyddiau'n cynnwys blaenoriaethau corfforaethol ac o bosib newid y ffordd y mae ffigurau'n cael eu cyflwyno;
- Mapio uniongyrchol/sicrwydd data;
- Pwyslais ar Lefel 1 - adolygiadau trawsbynciol - llywodraethu a rheolaeth y cyngor a chynyddu lefel sicrwydd;
- Mae gweinyddu pensiynau ar lefel 2, risg canolig/uchel o ganlyniad i faint o gyllid sy'n cael ei drefnu'n allanol a'r sicrwydd sy'n cael ei ddarparu gan wiriadau Swyddfa Archwilio Cymru ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Cynllun a Strategaeth Archwilio Mewnol 2019/20.

## 93 Y diweddaraf am broses y GDG.

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad 'er gwybodaeth' a rhoddodd drosolwg o broses wirio'r GDG. Amlinellir proses wirio'r cyngor yn Atodiad 1.

Ychwanegodd fod yr holl wiriadau GDG yn gyfredol a bod yr oedi a nodwyd yn yr archwiliad flaenorol o ganlyniad i salwch staff. Mae gweithdrefnau wedi cael eu newid er mwyn sicrhau nad yw'r sefyllfa blaenorol yn cael ei hailadrodd. Fodd bynnag, mae ysgolion yn dilyn gweithdrefn wahanol.

Dywedodd y Cadeirydd fod y diweddaraf wedi darparu sicrwydd i'r pwyllgor fod proses wirio'r GDG yn gyfredol ac yn cael ei gweinyddu yn gywir.

**94 Cynnydd tuag at gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru. (Er gwybodaeth)**

Darparwyd yr adroddiad Cynnydd tuag at Gyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru 'er gwybodaeth'.

**95 Y diweddaraf am yr adroddiad am Risgiau Allweddol - Mawrth 2019. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd Richard Rowlands, Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd wedi darparu'r gwaith Olrhain Risgiau Corfforaethol Misol ar gyfer mis Mawrth 2019.

Ychwanegodd fod y Risgiau Corfforaethol canlynol wedi cael eu holrhain yn fisol gan y pwyllgor: -

- RG80 - Rheolaeth Ariannol ac Abertawe Gynaliadwy
- RG81 - Canol y ddinas
- RG90 (a risg ychwanegol RG102) - Penderfyniad i adael yr Undeb Ewropeaidd (BREXIT)

Disgrifiodd Atodiad A statws bob risg ar 28 Mawrth 2019.

Gofynnodd y pwyllgor am lai o arbedion cyffredinol ar gyfer RG80 - Rheolaeth Ariannol ac Abertawe Gynaliadwy a darparwyd ymateb.

Cadarnhaodd y Cadeirydd ei bod hi ar fin cwrdd â'r Rheolwr Cyflwyno a Pherfformiad Strategol er mwyn arsylwi ar y feddalwedd rheoli risgiau newydd. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith y byddai ceisiadau am welliannau i'r wybodaeth rheoli risgiau sydd wedi cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio yn cael eu gweld unwaith y bydd y system newydd ar waith.

**96 Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio. (Er gwybodaeth)**

Cyflwynodd y Prif Archwilydd adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Gofynnodd y Cadeirydd am y camau a gymerwyd ynghylch y diweddaraf am gofnod rhif 80 - Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio ar 12 Chwefror 2019 a dywedodd y byddai'n trafod ymhellach â'r Prif Archwilydd yn dilyn y cyfarfod.

**97 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio 'er gwybodaeth'.

Dywedodd y Prif Archwilydd fod cynllun gwaith newydd yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Mehefin. Gofynnodd y Cadeirydd i gael edrych ar y cynllun gwaith drafft cyn cyfarfod nesaf y pwyllgor.

Ychwanegodd y Cadeirydd fod cynnydd da wedi bod ers adolygiad perfformiad y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2018 yn erbyn y canfyddiadau allweddol a nodwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn Atodiad 2. Gofynnodd hefyd fod Swyddfa Archwilio Cymru yn rhoi adolygiad perfformiad pellach ar waith yn y flwyddyn ddinesig newydd.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.00 pm

**Cadeirydd**